FSA 06/07/02 **EITEM 1.2 AR YR AGENDA, 13 GORFFENNAF 2006**

CAMAU YN CODI

Crynodeb o'r Camau yn Codi o'r Cyfarfod Bwrdd Agored a Gynhaliwyd ym mis Mehefin

Mynegai	Camau i'w cymryd	Dyddiad cwblhau	Cynnydd hyd yma
15June06/O/290	Cyhoeddi'r cynllun wrth gefn ar gyfer clefyd y crafu annodweddiadol mewn anifeiliaid cnoi cnul bach, gan gadarnhau'r geiriad gydag aelodau'r Bwrdd ymlaen llaw. (Para 41)	Diwedd mis Medi 2006	Caiff papur rhyngsesiynol ei baratoi i'w gadarnhau gan aelodau'r Bwrdd
15June06/O/291	Dylai'r Cyfarwyddwr Cyfathrebu ystyried y dulliau a'r iaith ar gyfer cyfleu negeseuon ynghylch clefyd y crafu annodweddiadol mewn anifeiliaid cnoi cul bach, yn arbennig i gyfleu'r risg bosibl yn sgîl bwyta anifeiliaid hŷn. (Para 41)	Diwedd mis Gorffennaf	Cytunwyd ar gynllun ar gyfer ymgynghori â: 1. Diwydiant 2. Cyrff anllywodraethol 3. Yn uniongyrchol â Defnyddwyr Yn ogystal mae croestoriad o Newyddiadurwyr yn rhan o'r broses o ddatblygu'r iaith a'r ymagwedd ar gyfer cyfathrebu â'r cyhoedd a fydd drwy'r cyfryngau yn bennaf.

Camau o Gyfarfodydd Blaenorol

Mynegai	Camau i'w cymryd	Dyddiad cwblhau	Cynnydd hyd yma
6Apr06/O/288	Gofynnid i'r Cyfarwyddwr Diogelwch Polisi Bwyd godi'r mater ehangach posibl o ran pecynnau sy'n dangos yn amlwg bod rhywun wedi ymyrryd â hwy gyda'r Tasglu Digwyddiadau Bwyd y mae bellach yn ei gadeirio. (Para 18)	Awst 2006	Cychwynnwyd trafodaethau gyda Ffederasiwn y Pobyddion am statws presennol pecynnau sy'n dangos yn amlwg bod rhywun wedi ymyrryd â hwy ar draws y diwydiant.
8Dec05/O/285	Rhoi nodyn diweddaru yn dilyn yr ymarfer i brofi trefniadau ar gyfer ymdrin â digwyddiadau. (Para 68)	Hydref 2006	Caiff nodyn ei gynhyrchu yn dilyn yr ymarfer, sydd â'r nod o brofi trefniadau galw allan ymhlith rhanddeiliaid allweddol.

Camau o Gyfarfodydd Blaenorol (parhad)

10Mar05/O/255	Camau yn ymwneud â chymeradwyo ymlaen llaw	↓	↓
c	Darparu asesiad o ran pa un a allai mesurau amgen ddod â manteision yn eu sgîl a fyddai'n cyfateb i gyflwyno system gymeradwyo ymlaen llaw. (Para 25)	Gorffennaf 2008	Cyfarfu panel arfarnu ar 23 Mawrth 2006 a nododd nad oedd unrhyw un o'r cynigion ymchwil a gafwyd i dreialu cynllun cymeradwyo ymlaen llaw yn ddigon agos i fodloni gofynion yr Asiantaeth i gyfiawnhau dechrau trafodaethau pellach. Mae swyddogion wrthi'n ystyried opsiynau eraill i ddangos effaith cymeradwyo ymlaen llaw a mesurau amgen. Cyflwynwyd adroddiad cynnydd i'r Bwrdd ym mis Rhagfyr (FSA 05/12/06). Caiff adroddiadau cynnydd pellach eu rhoi ar adegau priodol.
e	Paratoi papur a datblygu asesiad effaith i helpu'r Bwrdd i wneud penderfyniad yn seiliedig ar dystiolaeth o ran pa un a ddylai argymell cymeradwyo ymlaen llaw. (Para 25)	Gorffennaf 2008	

Camau wedi'u Cwblhau

Mynegai	**Camau i'w cymryd**
14July05/O/267	Tasglu Digwyddiadau Bwyd: nodyn gwybodaeth ar y camau a gymerir gan awdurdodau diogelwch bwyd eraill yr UE i adalw cynhyrchion a'u tynnu'n ôl o'r farchnad. (Para 31). Mae nodyn diweddaru wedi'i anfon at aelodau'r Bwrdd. Fe'i dosbarthwyd ar 7 Gorffennaf.
15Sep05/O/273	Dylid cynnal arolwg i roi tystiolaeth well mewn perthynas â chyfran ategolion bwyd yn y farchnad (Para 26). Dosbarthwyd copi caled o bapur rhyngsesiynol i aelodau'r Bwrdd ar 23 Mehefin.
15Sep05/O/274	Dylid cynnal ymchwil bellach i nodi dognau fitaminau a mwynau drwy'r deiet ar gyfer defnyddwyr, gan gynnwys plant (Para 26). Dosbarthwyd copi caled o bapur rhyngsesiynol i aelodau'r Bwrdd ar 23 Mehefin.